# Moi y ci



Tric a Chlic 3



Roedd hi'n noson oer.





Roedd Moi y ci am fynd i chwarae yn y goedwig.



“Ddoi di gyda mi?” gofynnodd i Ben.
“Na, mae’n oer,” atebodd Ben.





Doedd Ben ddim eisiau mynd i chwarae. Roedd Ben yn hapus yn cnoi asgwrn.




"Ddoi di gyda mi?" gofynnodd i Troi.
"Na, mae'n oer," atebodd Troi.





Doedd Troi ddim eisiau mynd i chwarae. Roedd Troi yn hapus yn cnoi sliper.



“Ddoi di gyda mi?” gofynnodd i Cen.
“Na, mae’n oer,” atebodd Cen.





Doedd Cen ddim eisiau mynd i chwarae. Roedd Cen yn hapus yn cnoi’r bêl.



“O, wel!” meddai Moi. “Rhaid i minnau droi am adref.”





“Mae’n noson oer ...

ond mae'n gynnes yn y tŷ o flaen y tân."



